

**Ffurflen Ymateb
i'r
Ymgynghoriad**

Eich enw: Rebecca Williams

Sefydliad (os yw'n briodol):
UCAC (Undeb Cenedlaethol Athrawon Cymru)

E-bost / rhif ffôn: rebecca@ucac.cymru / 01970 639950

Eich cyfeiriad:
UCAC, Ffordd Penglais, Aberystwyth SY23 2EU

1. Ydych chi'n cytuno bod angen cryfhau gwasanaethau Cymraeg mewn iechyd, gwasanaethau cymdeithasol a gofal cymdeithasol?

<i>Rwy'n cytuno</i>	<i>Rwy'n anghytuno</i>	<i>-Nid wyf yn siŵr</i>
✓		

Rhowch resymau:

Cytunwn yn llwyr â'r dadleuon sy'n cael eu hamlinellu yn y ddogfen ymgynghorol a'r Fframwaith Strategaeth olynol. Mae gwaith da wedi'i gychwyn, ond mae angen atgyfnerthu a dyfalbarhau os am weld gwelliannau gwirioneddol, systemig, cyson ar draws gwahanol wasanaethau ledled Cymru.

Fel corff sy'n gweithio ym myd addysg Cymru, rydym yn ymwybodol bod:

- plant yn y system addysg sydd ag anghenion sy'n cael eu cyflenwi gan wasanaethau iechyd a/neu cymdeithasol, ble mae'n gallu bod yn anodd iawn, neu'n amhosib, cael y gwasanaeth yn y Gymraeg; mae rhai o'r achosion hynny'n fater o 'angen' (h.y. mae'r plant yn uniaith Gymraeg, neu â sgiliau ieithyddol llawer cryfach yn y Gymraeg), ac eraill yn fater o ddewis (h.y. iaith arferol y teulu a'r ysgol)
- diffyg cefnogaeth neu gyfleoedd i gydweithio drwy gyfrwng y Gymraeg i ymarferwyr addysg, yn arbennig felly Cydlynwyr Anghenion Dysgu Ychwanegol, sy'n ceisio darparu gwasanaethau neu gefnogaeth ychwanegol i ddisgyblion yn y sector cyfrwng Cymraeg yn aml trwy drefniadau aml-asiantaeth

2. Ydych chi'n cytuno â'r rhesymau dros gryfhau gwasanaethau Cymraeg mewn iechyd, gwasanaethau cymdeithasol a gofal cymdeithasol?

<i>Cytuno â'r rhan fwyaf ohonyn nhw</i>	<i>-Anghytuno â'r rhan fwyaf ohonyn nhw</i>
✓	

Rhowch resymau:

Mae'r rhesymeg yn gwbl glir, yn gadarn ac yn gryno. Cytunwn yn llwyr â'r rhesymau a'r ffordd glir iawn y'u mynegwyd nhw yn y Fframwaith Strategaeth olynol – yn enwedig y datganiad bod darparu yn y Gymraeg yn rhan greiddiol o safon y gwasanaethau a'r gofal.

Anarferol a braf iawn yw cael darllen dogfen o'r fath sydd wedi deall y sefyllfa o safbwynt defnyddwyr y gwasanaethau, sy'n gwneud achos mor glir dros gryfhau gwasanaethau Cymraeg, ac sy'n gwneud cynigion realistig a phwrpasol i wella profiadau'r cyhoedd.

3. Ydych chi'n cytuno, yn hytrach na disgwyl i ddefnyddwyr gwasanaethau a'u teuluoedd ofyn am wasanaethau Cymraeg, y dylai sefydliadau iechyd, gwasanaethau cymdeithasol a gofal cymdeithasol fod yn gyfrifol am wneud 'Cynnig Rhagweithiol' o wasanaethau Cymraeg?

Ydw, rwy'n cytuno ✓	<i>Nac ydw, nid wyf yn cytuno</i>
<p>Cytunwn yn llwyr. Unwaith eto, mae'r ddogfen hon wedi deall y sefyllfa, ble mae cymaint o'i blaen wedi methu â gwneud.</p> <p>Mae dibynnu ar 'ddefnyddwyr gwasanaethau' i wneud cais am wasanaeth yn mynd i fethu bron bob tro, oherwydd ei bod yn gofyn i'r defnyddiwr fod mewn cyflwr/sefyllfa o nerth, grym, hyder a dewrder. Wrth eu natur, nid yw'r sawl sy'n derbyn gwasanaeth iechyd, gwasanaeth neu ofal cymdeithasol yn debygol o fod mewn cyflwr felly.</p> <p>Yn wir, mewn sefyllfa, megis Cymru, ble mae un iaith eithriadol o nerthol a dominyddol, ac un iaith leiafrifol, mae 'dynamics' sefyllfaoedd o ddydd i ddydd yn golygu bod angen i unigolyn fod yn barod i deimlo fel 'niwsans' os yw am wneud cais am (heb sôn am fynnu) gwasanaeth yn y Gymraeg.</p> <p>Ni fyddai hynny'n ffordd adeiladol na pharchus o drin siaradwyr Cymraeg yn y gwasanaethau iechyd, gwasanaethau cymdeithasol a gofal cymdeithasol. Barn UCAC yw bod y cynnig rhagweithiol yn gwbl anhepgorol i lwyddiant y strategaeth – yn wir mae angen cymhwyso'r egwyddor hon yn llawer ehangach drwy'r sector cyhoeddus a thu hwnt.</p>	

4. Er mai'r nod yw cynnig dewis iaith i bob un, ydych chi'n cytuno y dylid rhoi blaenoriaeth wrth gryfhau gwasanaethau Cymraeg i grwpiau â blaenoriaeth a'u teuluoedd?

Ydw, rwy'n cytuno ✓	<i>Nac ydw, nid wyf yn cytuno</i>
<p>Cytunwn, yn y tymor byr a chanolig, bod angen targedu grwpiau â blaenoriaeth a'u teuluoedd, er mwyn gwneud gwahaniaeth sylweddol a buan. Rhaid sicrhau, fodd bynnag, mai'r nod yn y tymor hirach yw cynnig dewis iaith i bawb.</p>	

5. Ydych chi'n cytuno y bydd y camau a nodwyd yng nghynllun gweithredu'r fframwaith strategol yn arwain at well gwasanaethau i siaradwyr Cymraeg a'u teuluoedd nag a ddarperir ar hyn o bryd?

Ydw, rwy'n cytuno ✓	<i>Na, ni fyddent yn gwneud hynny</i>
<p>Cytunwn fod angen sicrhau bod darpariaethau'r fframwaith olynol yn cael ystyriaeth lawn wrth gomisiynu a chontractio'n allanol - nid dim ond mewn perthynas ag 'ymwybyddiaeth' a 'sensitifrwydd' ieithyddol, ond mewn perthynas â'r gallu i weithredu yn y Gymraeg yn ogystal.</p> <p>Mi ddylai'r cyfuniad o (i) hyfforddiant ymwybyddiaeth ieithyddol (ii) datblygu sgiliau aelodau cyfredol y gweithlu (iii) strategaeth recriwtio sy'n cydnabod yr angen am weithlu dwyieithog arwain at welliannau o ran y gwasanaethau a ddarperir.</p> <p>Cytunwn mai'r gallu i wneud 'Cynnig Rhagweithiol' ar draws yr holl wasanaethau ddylai fod y ffon fesur, neu'r waelodlin, ar gyfer dadansoddi</p>	

anghenion datblygu'r gweithlu, gyda rheidrwydd i lunio cynllun gweithredu i gynyddu'r gallu ble amlygir gwendidau.

Mae'r pwyslais ar arweinyddiaeth ar bob lefel yn hollbwysig, yn enwedig wrth geisio newid y diwylliant. Rhaid i'r pwyslais, y negeseuon a'r blaenoriaethau fod yn gwbl glir.

O ran cynllunio a datblygu'r gweithlu, mae pwyntiau gweithredu 4.6, 4.7, 5.4, 5.5, 5.7, 5.8, 6.3, 6.6 a 6.7 yn arbennig o bwysig, ac i'w croesawu'n fawr. Teimlwn fodd bynnag bod ar amserlen (Mawrth 2019) ar gyfer 4.6 yn rhy araf, ac na ddylai gymryd gymaint o amser i'w wireddu.

6. Ydych chi'n cytuno'n gyffredinol â'r camau a amlinellwyd yn y cynllun gweithredu?

Ydw, rwy'n cytuno ✓	Nac ydw, nid wyf yn cytuno
Gweler cwestiwn 5 uchod.	

7. Beth arall ydych chi'n meddwl ddylai fod yn y cynllun gweithredu?

- Nodwn fod cam gweithredu 3.5 yn cyfeirio at ddarparwyr gofal sylfaenol megis optegwyr, fferyllwyr a deintyddion; mae hynny i'w groesawu'n fawr. Braf fyddai gweld rhagor o fanylder ynghylch sut i sicrhau gwell ddarpariaeth o ran y Gymraeg yn y gwasanaethau hyn, yn ogystal â gwella dwyieithrwydd y lleoliadau ble darperir y gwasanaethau – mae llawer fawr o'r rhain yn ddiffieithwch llwyr mewn perthynas â'r Gymraeg – ar lafar ac yn weledol, gyda diffyg ymwybyddiaeth ar ran y staff.
- Er mwyn ategu'r pwyslais yn y fframwaith olynol ar brif-ffrydio, awgrymwn y dylai bod cyfrifoldebau monitro ac adrodd gan Gomisiynydd Plant, Comisiynydd Pobl Hŷn a Chomisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol yn ogystal â Chomisiynydd y Gymraeg.

8. A oes gennych unrhyw sylwadau perthnasol eraill yr hoffech eu cynnwys?

Mae ymatebion i ymgynghoriadau yn debygol o gael eu gwneud yn gyhoeddus, ar y rhyngwyd neu mewn adroddiad. Os byddai'n well gennych i'ch ymateb aros yn ddiennw, ticiwch yma.